

CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 1 Hydref, 2015

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Rhodri Jenkins (Cadeirydd); Brython Davies, Eluned Evans, Phil Lloyd, a'r Cyng. Rhodri Davies.

1. YMDDIHEURIADAU

Jane Hopkins, Alun Jenkins, Elise Powell, James Raw.

2. MATERION PERSONOL

Dymunwyd wellhad buan i Alun Jenkins yn dilyn ei arhosiad yn yr Ysbyty yn ddiweddar.

3. COFNODION 3ydd MEDI, 2015

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir. Cynigiwyd cywirdeb gan Phil Lloyd ac eiliwyd gan Brython Davies.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

(a) Arwyddion Llwybrau Cyhoeddus

Yn dilyn danfon gohebiaeth at y Cyngor Sir derbyniwyd cydnabyddiaeth gan ymholi am fwy o fanylion penodol o'r problemau sy'n bodoli.

(b) Dwr yng Nghwmystwyth

Adroddwyd fod y dŵr yn llifo wedi'i atal ond gadawyd tyllau yn y ffordd gan y dŵr. Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir at sefyllfa'r ffordd.

(c) Adroddwyd mai nid angen torri'r canghennau coed oedd angen wrth Spring Hill ond sicrhau fod yr arwydd yn fwy gweladwy gan ei fod wedi troi.

5. GOHEBIAETH

(a) Derbyniwyd gwybodaeth pellach wrth yr Arolygiaeth Gynllunio yn ymwneud a "Dyfed County Council - Wildlife & Countryside Act 1981 - Definitive Map Reclassification Order 1991 "Upper Llanfihangel" Rups 20/37, 20/38, 20/44 yn adrodd ar yr ohebiaeth a dderbyniwyd yn ymwneud â'r uchod.

(b) A15029 Alterations and extension to an existing dwelling, including outbuildings and garden structures. Tynglog, Cwmystwyth.

Trafodwyd y cais cynllunio uchod yn y cyfarfod ar yr ail o Orffennaf 2015 ond deallir fod y cynlluniau wedi diwygio er mis Gorffennaf. Danfonir y sylwadau canlynol mewn ymateb i'r cais diwygiedig:

Ymhellach i'r diwygiadau i'r cais cynllunio uchod, cytunwyd nad oedd y newidiadau a wnaed i'r cynlluniau yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r effaith cryf mae'r cladin rhychiog o ddefnydd sment yn ei gael ar yr "hen fwthyn."

Mae cladin o'r math yma yn ymddangos yn fwy addas i uned ddiwydiannol yn hytrach nag i adeilad cartrefol, yn enwedig adeilad mor fach ag Ochr Glog. Fe allai edrych yn well pe defnyddir defnydd llai amlwg fel yr hen haearn rhychiog a ddefnyddwyd yn y gorffennol.

Pam fod angen defnyddio'r un defnydd ar gyfer yr adeiladau ychwanegol yn yr ardd? Mae pren yn ymddangos yn ddeunydd mwy traddodiadol ar gyfer siediau a storfeydd coed. Fe fyddai wedi bod o fudd pe byddai nwyddau gwahanol wedi eu cynnwys yn y cynlluniau diwygiedig. Y farn gyffredinol oedd nad yw'r cynlluniau yma yn addas ar gyfer hen adeilad fel Ochr Glog.

Further to amendments to the planning application of the above, the matter was discussed with members of the Community Council and it was agreed that the changes that have been made to the plans do not make any difference at all to the overpowering effect that the corrugated cement cladding has on the "old Bwthyn."

The cladding seems more suitable to an industrial unit rather than a domestic dwelling, especially one as small as Ochr Glog, if it was a smaller profile like the old corrugated iron that was used in the past it might look better.

Why do the additional buildings in the garden have to be covered in the same material?

Timber seems to be more a traditional material for sheds & wood stores.

It would have been better if an alternative cladding had been added to the re-submitted plans.

The opinion was that this is not a suitable conversion for such an old property.

6. CYLLID

- (a) Adroddodd y Clerc fod BDO, archwilydd cyllidol allanol wedi derbyn a chadarnhau bod cofnodion 2014/15 y Cyngor Bro wedi eu harchwilio'n gywir. Cytunwyd i dalu BDO £96.00 (£80.00 a £16.00 TAW) am archwilio'r cyfrifon. Cynigiwyd y taliad gan Eluned Evans ac eiliwyd gan Phil Lloyd.
- (b) Derbyniwyd anfoneb wrth Alan Cole am ddiweddarau diogelwch Safle We'r Gymuned. Cytunwyd i dalu £75.00 i Alan Cole hyd at fis Ionawr. Cynigiwyd y taliad gan Rhodri Jenkins ac eiliwyd gan Brython Davies. Cafwyd trafodaeth bellach am gostau rhedeg y Safle We a chytunwyd y byddai'r Clerc yn gwneud cais am grant o gronfa melinau gwynt Cefn croes ar gyfer y costau.

7. UNRHYW FATER ARALL

- (a) Tynnwyd sylw'r aelodau at y canlynol sydd angen sylw brys gan y Cyngor Sir:

Tyllau yn y ffordd gyhoeddus sy'n arwain ar hyd Bont Dolchgennog, Cwmystwyth. Deallir hefyd fod y draeniau gerbron y Bont wedi llenwi.

Tyllau yn y ffordd gyferbyn a mynedfa Dolgors ar y ffordd rhwng Rhosygell a Phontrhydygores angen sylw brys.

Y Clerc i gysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion yn adrodd ar y materion uchod.

8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nos Iau 26ain Tachwedd, 2015 yn Ysgol Mynach am 7.00 y.h.